# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGU A CHYFLWYNO POLISI ECONOMI AC ISADEILEDD

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD IAU, 10 AWST 2017 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| N J Davies | O G James | S M Jones |
| P Jones | J W Jones | W G Lewis |
| P Lloyd | P M Matthews | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L S Gibbard a/ac W G Thomas

9 **DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

10 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi'r Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2017 fel cofnod cywir.

11 **TROSOLWG O'R FARGEN DDINESIG. (CYFLWYNIAD-PHIL HOLMES).**

Rhoddodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas drosolwg cynhwysfawr i'r pwyllgor o Fargen Ddinesig Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

Fel rhan o'r cyflwyniad, disgrifiodd y meysydd canlynol yn fanwl:

- Hanes cefndirol y cais;
- Y cytundebau a'r trefniadau partneriaeth sydd ar waith rhwng yr awdurdodau lleol amrywiol, prifysgolion, cyrff cyhoeddus, diwydiant preifat a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- Prif nodau a heriau'r prosiect;
- Y gweledigaethau, yr effeithiau disgwyliedig a'r ymyriadau cynlluniedig;
- Cyd-fynd â Strategaeth Ddiwydiannol y DU;
- Nodau i gyflwyno prosiectau a chreu swyddi;
- Dadansoddi cyllid a buddsoddiad o arian y Fargen Ddinesig a buddsoddiad diwydiant preifat ar gyfer pob cynllun;
- Enillion arfaethedig o'r buddsoddiad, a nodau ac amcanion y prosiectau
- Blaenlwytho arian awdurdodau lleol i roi hwb i brosiectau;

- Cynigion Rhanbarth Arloesedd Clyfar Iawn gan gynnwys Campws a Phentref Gwyddorau Bywyd a Llesiant, Canolfan Gwyddoniaeth Dur, Ffatri'r Dyfodol, Cartrefi fel Pwerdai a Phrosiect Morol Doc Penfro;
- Model Busnes 5 Achos sy'n cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun ar hyn o bryd;
- Y Fenter Sgiliau a Doniau a arweinir gan Bartneriaeth Ranbarthol Dysgu Sgiliau;
- Isadeiledd Digidol Rhanbarthol;
- Datblygiad o Ganolfannau Rhagoriaeth yng Ngwasanaethau Digidol y Genhedlaeth Nesaf;
- Cysylltiadau ag S4C i ddatblygu Clwstwr Digidol Creadigol "Yr Egin";
- Adfywio Canol Dinas Abertawe a Phrif Brosiectau a gynhwysir yn y prosiect hwnnw: Arena, Gwesty, Maes Parcio Aml-lawr, Gwely Prawf Cyfathrebiadau Symudol 5G ac adfywio safle Dewi Sant;
- Datblygu Ardal Fusnes Ddigidol y Glannau;
- Ardal Ddigidol Ffordd y Brenin;
- Amserlenni Cyflwyno;
- Trefniadau Llywodraethu.

Gofynnodd y pwyllgor nifer o gwestiynau i Bennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, a ymatebodd yn briodol.

Roedd trafodaethau'n ymwneud â'r pynciau canlynol yn bennaf: -

- Dadansoddi cyllid y Fargen Ddinesig;
- Isadeiledd cludiant cyhoeddus;
- Tystiolaeth o gynaladwyedd wrth ystyried llesiant a'r amgylchedd; a
- Mynd i'r afael â'r bwlch GVA.

Diolchodd y cadeirydd i Bennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas am ei gyflwyniad llawn gwybodaeth.

## 12 CYNLLUN GWAITH 2017 - 2018.

Datganodd y cadeirydd y byddai'r canlynol yn eitemau i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf:

1) Cerdyn Dinesydd; a
2) Chynllun Creu Parth Cerddwyr ar Stryd y Gwynt.

**PENDERFYNWYD** nodi’r eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.59 pm

**CADEIRYDD**